**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 7 Medi 2021.**

**Presennol:** Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Gordon Owen a Sharon Parry.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones, William Victor Owen, Beryl Salisbury a Einir Thomas.

2. **Datganiad o ddiddordeb -** dim.

3. **Parc Solar Traffwll**

4. Er y cydnabod pryderon trigolion ardal Bryngwran parthed plot 4 a 5 ond rhaid oedd iddynt ganolbwyntio ar farn trigolion Llanfair yn Neubwll a'r materion oedd yn ymwneud â phlot 6 (Glangors).

   Cyfathrebwyd y pryderon hyn fel a ganlyn:

   Mae'r datblygiad yn groes i'r ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer datblygiadau solar yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn a hefyd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

   Byddai'r datblygiad ar Blot 6 yn weladwy i lawer o drigolion ac yn enwedig y rhai sy'n byw ym mhentref Llanfihangel yn Nhowyn. Byddai'r datblygiad hwn yn cael effaith negyddol ar eiddo rhain gan nad oed digon yn cael ei wneud i guddio'r datblygiad.

   Mae'r safle yn dir gwlyb sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt gan gynnwys adar, madfallod, planhigion a phryfed. Ystyriwyd y byddai datblygiad o'r fath yn cael effaith fawr ar y safle, yn difetha'r cynefin amrywiol hwn ac yn gwneud y llwybrau cyhoeddus yn hollol anhygyrch drwy gydol y cyfnod adeiladu.

   Nid yw'r datblygiad yn creu swyddi i bobl leol, ac ychydig iawn o waith contract a gynigir yn lleol yn ystod bywyd y parc solar.

   Ni fydd fawr o fudd ariannol i'r gymuned yn deillio o'r datblygiad, ac mae'r holl elw yn debygol o gael ei wneud y tu allan i Gymru.

   Byddai'r datblygiad yn arwain at draffig trwm ar hyd llwybr ysgol brysur. Mae Ysgol Caergeiliog Foundation School yn denu disgyblion o'r pentref ei hun, o ganolfan y Llu Awyr Camp Fali ac o mor bell i ffwrdd â Bangor a Llandudno. Bydd rhai disgyblion yn cerdded yno ar hyd yr un lôn gul (sydd heb balmant) a'r lon mae'n rhaid ei dilyn i gyrraedd y plot 6. Mae'r dalgylch hynod eang eisoes yn achosi problemau enfawr gyda thagfeydd traffig trwm yn y cyffiniau. Byddai loriau mawr yn teithio nôl a blaen ar yr un



Arwyddwyd ………………………………………Cadeirydd.

lon  yn sicr o gynyddu'r risg o anaf difrifol ac yn bendant o achosi niwed arwyddocaol i'r ffyrdd.

Er bod y cynrychiolwyr carbon isel wedi cynghori bod y mater o geblau ar gyfer y fferm solar yn fater ar wahân, mae trigolion  yn parhau i fod yn bryderus am y llwybr tebygol ar gyfer ceblau. Ystyriwyd ei bod yn annhebygol y byddai'r datblygwr yn gallu sicrhau cytundeb pob tirfeddiannwr i ganiatáu'r nifer o filltiroedd o geblau sydd eu hangen rhwng y tri safle i'r orsaf ar Ffordd Cymyran, gael eu claddu ar dir preifat. Os felly, byddai'n rhaid cloddio sawl milltir o briffordd gyhoeddus er mwyn i'r ceblau gael eu gosod dan  y ddaear. Byddai hyn yn cynnwys sianelu'r unig lwybr i ysgol Caergeiliog. Teimlai preswylwyr fod y misoedd lawer o darfu, byddai hyn yn achosi yn gwbl annerbyniol.

**5. Campio Anghyfreithlon - Traeth Cymyran.**

4.1 Roedd yr aelodau'n feirniadol iawn fod Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan wedi diystyru barn y Cyngor Cymuned ac wedi codi giât wedi ei chloi ar y ffordd i lawr i Draeth Cymyran. Gwnaed y penderfyniad heb feddwl dim am  les trigolion lleol oedd wedi defnyddio'r lôn am genedlaethau. Bu problemau gyda campio anghyfreithlon, beiciau modur ac unigolion yn cam-drin eu hawliau ers peth amser ond gan na wnaethon nhw ddim i drio datrys y broblem  fe waethygodd y sefyllfa.

Roedd atal mynediad i gerbydau wedi bod yn ateb hawdd i'r Bwrdd Gofalwyr ond roedd wedi creu problemau enfawr i eraill yn y cyffiniau ac roedd hi'n anodd iawn i lawer o deuluoedd ifanc a defnyddwyr anabl fynd at y traeth o ganlyniad.

Roedd cofnod hefyd o'r Bwrdd Gofalwyr yn gofyn i'r Cyngor Cymuned am arian  tuag at drin y ffordd a bod arian cyhoeddus wedi ei roi iddynt er mwyn sicrhau fod yna fynediad gwell i drigolion lleol.

Roedd teimlad bod y Bwrdd Gofalwyr yn trio osgoi coheddysrwydd wrth osodwyd arwyddion newydd yn ddiweddar heb fath o fanylion cyswllt arnynt. O ganlyniad, roedd cwynion i gyd, ac roedd nifer ohonnynt wedi eu cyfeirio at y Cyngor Cymuned gan fod trigolion yn cymryd yn ganiataol mai'r Cyngor oedd wedi gosod y giat. Cytunwyd y dylai'r Bwrdd Gofalwyr gymryd cyfrifoldeb am ei penderfyniad a bod yn fwy agored i'r cyhoedd. gyda'r cyhoedd  Yn y cyfamser byddai'r Clerc yn parhau i anfon pob cwyn ymlaen iddynt ar clerc.trewan@outlook.com

**5. Seddi gwag**

5.1 Cytunwyd yn unfrydol i gyfethol Miss Lowri Ann Owen i sedd wag ar y Cyngor.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

6.1 **HHP/2021/264 -  Glyn, Ffordd Cymyran Road, Caergeiliog**
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu  - dim gwrthwynebiad.

Cofrestr Gyhoeddus



Arwyddwyd ………………………………………Cadeirydd.

6.2 **HHP/2021/149 Plas Llanfair, Llanfair Yn Neubwll**
Cais llawn ar gyfer trosi adeilad allanol i fod yn anecs ynghyd ag addasiadau ac estyniadau - dim gwrthwynebiad.

Cofrestr Gyhoeddus

6.3 **LUE/2021/15 Tyddyn Du, Y Fali / Valley**
Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer y defnydd presennol o chalet am ddefnydd preswyl – cytunwyd fod y chalet wedi bod yno ers peth amser ond gobeithwyd na fyddai hyn yn arain at gais cynllunio ar y safle.

Cofrestr Gyhoeddus

6.4 **HHP 2021/212 2 Pendref, Ffordd Caergybi/Holyhead Road, Caergybi/Holyhead**
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu hefo balconi yn yr cefn - dim gwrthwynebiad.

Cofrestr Gyhoeddus

**7. Cynghrair Llifon Alliance**

Is-grŵp Plant a Phobl Ifanc – Cyfarfod zoom 14/09/2021 @ 7pm

Is-grŵp Trafnidiaeth Cyfarfod / 30/09/2021 630pm.

**8. Nodyn briffio parthed y'n ymwneud â chyfarfodydd aml-leoliad** - nodwyd
Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn talu costau gosod llinell ffôn a chysylltiad rhyngrwyd yn y Neuadd Bentref.

**9. Materion Ariannol - i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.**

**10. Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog Gorffennaf | £243.61 | GMS Garden Machinery Ltd. | £120 |

Cytunwyd i dalu y rhain.

**11. Adroddiadau Aelodau - dim**

**12. Cyfarfod Nesaf - 21 Medi 2021**



Arwyddwyd …………………………………………Cadeirydd.